CYNGOR CYMUNED CYNWYL ELFED
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 7.30 y.h. ar Nos Lun 19.10.26
Yn Neuadd Cymdeithasol Cynwyl Elfed
Yn Bresennol: Cyng. Amy Evans(Cadair.), Cyng. Delme Phillips(Is-Gadeirydd), Cyng. Bryan Davies, Cyng. Eifion Jones, Cyng. Julian Evans, Cyng. Aled Jones a'r Cyng. Robin Bowen.
Clerc: Enid Davies
Cyfieithydd: Bethan Griffiths
Ymddiheuriadau: Cyng. Elfed Davies
Aelod o'r cyhoedd: A. Tasker.

Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod.

51.Datgelu Buddianau Personol:
Gofynnodd y Cadeirydd I aelodau'r Cyngor a oedd ganddynt unrhyw fuddiannau i'w datgan mewn perthynas â'r materion oedd yn cael eu trafod - datganodd y Cyng. D. Phillips fuddiant (nad yw'n fuddiant pecuiol) mewn perthynas ag Ymgynghoriad Cynllunio PL/11425, ac ni fyddai'n cymryd rhan yn y drafodaeth nac yn pleidleisio ar y mater.

52. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfodydd diwethaf.
Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21.09.26 yn gopi cywir - cynigiwyd gan y Cyng. A.Jones ac eiliwyd gan y Cyng. J. Evans.

53.Materion i'w hadrodd
a. Materion Priffyrdd: - gweler o dan adroddiadau materion priffyrdd.
b. Cyfleusterau Cyhoeddus a Neuadd Cynwyl Elfed -.gweler o dan adroddiadau is-bwyllgorau.
c. Bwrdd Hysbysiadau Hermon - Cyng. B.D. i asesu.
d. Clerc Newydd/Swyddog Ariannol Cyfrifol - Mae ymgeisydd wedi ymateb i'r hysbyseb swydd a osodwyd trwy Un Llais Cymru. Penderfynwyd y dylai'r clerc wneud trefniadau ar gyfer cyfweliad i'w gynnal am 7.30 y.h. ddydd Mawrth 27/10/26 yn Neuadd Cynwyl Elfed. Bydd y panel yn cynnwys y Cynghorwyr A.E., D.P., J.E., R.B. a'r clerc.

54.Gohebiaeth.
Nodir bod copïau o'r e perthnasol a dderbyniwyd yn cael eu hanfon at y cynghorwyr drwy e-byst.
- *Seminar Gwirfoddolwyr Argyfyngau Sifil Sir Gaerfyrddin (22.10.26) ar gyfer Clerciau Tref a Chymuned* - Bydd y clerc yn mynychu.
- *Cynnigion ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol U.Ll.C. 2027 - erbyn hanner dydd ar 4 Rhagfyr 2026* - Penderfynodd y Cyngor gyflwyno cynnig yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno deddf er mwyn diogelu enwau tai Cymreig. Cyngiwyd gan y Cyng. J.E. ac eiliwyd gan y Cyng. R.B.
- Llyw.Cymru:Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant a Chwaraeon yng Nghymru-ymateb erbyn 25.11.26 - penderfynwyd bydd y Cynghorwyr A.E. ac R.B. yn ymateb ar ran Pwyllgor y Parc.

55.Cynllunio
PL/11003- Codi adeilad amaethyddol at ddibenion cyffredinol a gwaith cysylltiedig - Penralltdafan, SA33 6ST **-**Penderfynodd y Cyngor gefnogi'r cais hwn. Cynigiwyd gan y Cyng. BD Eiliwyd gan y Cyng. JE.

PL/11425 - Materion a gadwyd yn ôl yn ymwneud â PL/07107 (Mynediad, Ymddangosiad a Chynllun) - Tir gyferbyn ag Awenydd, Blaenycoed SA33 6ET - Penderfynodd y Cyngor gefnogi'r cais hwn ar yr amod bodd cynllun draenio yn cael ei gyflwyno, a bod yr awdurdodau priodol yn fodlon ar y cynllun a gyflwynwyd.

PL/11245 - Capel Bethel, Cynwyl Elfed - Trafodwyd y Llythyr Ymgynghori yng nghyfarfod mis Medi - Roedd y Cyngor wedi gwneud pob ymdrech i gael unrhyw wybodaeth berthnasol gan yr awdurdod lleol cyn cyflwyno ei ymateb. Cafodd Mr. A. Tasker gyfle yn ystod y cyfarfod i gyflwyno

ei gynlluniau ar gyfer y Capel i'r Cyngor, gan egluro sut yr oedd yn bwriadu gwneud gwelliannau ac adnewyddiadau, tra ar yr un pryd yn parchu ac yn Cadw gwerth hanesyddol y Capel. Dywedodd y Cyng. A. Evans (Cadeirydd) ar ran y Cyngor, bod y Cyngor yn Falch bod y Capel yn cael ei adnewyddu; diolchodd hefyd i Mr Tasker am fynychu cyfarfod y noson ac am gymryd yr amser i egluro ei gynlluniau ar gyfer Capel Bethel.

56.Taliadau a Chyllid

Taliadau:

- Maria Thomas Hydref 2026 - £230.00
- ME Davies Cyflog y Clerc 09/26 £324.00
- H.M.R.C. Cwarter (2) hyd at 05/10/26 £243.00
- Clay Shaw Butler Cyflogresl 6m hyd at 30.09.26 £330.00
- Trydan EDF 02.09.26-30.09.26 £ 49.22
  Gan adael balans o *£102.84 credid* ar y cyfrif.
- Archwilio Cymru ar gyfer Archwiliad Llawn 2024/25 £806.60

Cymeradwyodd y Cyngor i wneud y taliadau uchod.

- **Derbyniadau**
- £0

ADOLYGIAD - CYSONI DERBYNIADAU A THALIADAU

Adolygwyd y cyfrifon hyd at 30 o fis Medi 2026 gan y Cyng. Amy Evans a nodwyd eu bod yn ymddangos yn gywir gan arwyddo'r gwaith cysoni cyfrifon a'r datganiadau banc i gadarnhau bod hyn wedi'i wneud.

57.Materion Priffyrdd:

Diweddariad ar materion adroddwyd ar 21.09.26

- Blaenycoed - dim arwyddion i hysbysu gyrwyr cerbydau mawr nad oedd y llwybr dargyfeirio yn addas ar gyfer cerbydau Mawr - derbyniwyd e-bost Oddi wrth yr Adran Priffyrdd yn cydnabod y gŵyn ac yn ymddiheuro am fethu'r nod drwy beidio ag ystyried hyn.

Materion Priffyrdd adroddwyd ar 19.10.26

a) Ffordd i'r Fynwent - Tyllau yn y ffordd wedi'u llenwi ond maent yn dechrau dirywio eto.
b) Blaenycoed - ar draws y ffordd tuag at Golygfa - y ffordd wedi suddo.
c) Cais am fin ysbwriel - Mae rhai pobl sy'n cerdded cŵn yn gadael y gwastraff mewn bagiau ar y gwrychoedd - cais am fin ychwanegol yn y pentref. Byddai rhywfaint o gyhoeddusrwydd I godi ymwybyddiaeth y cyhoedd yn ddefnyddiol.
d) Rhiw Clawdd Coch Hill - Mae angen i beiriannydd archwilio'r ffordd.
e) Cwm Hagar - Mae wyneb y ffordd wedi erydu ac mae ochrau'r ffordd hefyd wedi dymchwel.

58. Adroddiadau gan Is-Bwyllgorau a Sefydliadau

- **Cyfleusterau Cyhoeddus:**
- Dim byd newydd i'w adrodd.
-
- **Cae Chwarae Bro Elfed:**
- Cadarnhaodd y Cyng. A.E. ei bod wedi cyflwyno cais am grant gan Gronfa'r Loteri Genedlaethol. Y bwriad ar gyfer y parc yw ei droi'n ofod ymlaciol yn ogystal ag ardal chwarae.

Canolfan Cymdeithasol Cynwyl Elfed

Mae'r Neuadd ar agor bob bore Sadwrn rhwng 10:00 a 12:00 canol dydd i wirfoddolwyr lanhau a gwneud gwaith i gynnal a chadw'r neuadd.

59.Unrhyw Fater Arall.

- **Polisi Cadw a Gwaredu Dogfennau -** Dosbarthwyd copïau yn Saesneg ac yn Gymraeg - penderfynwyd rhoi amser i aelodau graffu ar y ddogfen hon cyn cyfarfod mis Tachwedd. Bydd y mater hwn yn cael ei gynnwys ar Agenda mis Tachwedd.
- **Un Llais Cymru - Cynhadledd Arferion Arloesol -**Mynychodd y Cynghorwyr BD a DP y cyfarfod a gynhaliwyd yn Llanelwedd. Rhoddodd y Cyng. BD drosolwg o'r pwyntiau a godwyd. Siaradodd Siân Gwenllian, Gweinidog y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Chynllunio, yn y gynhadledd. Un o'r prif negeseuon I'w cymryd o'r gynhadledd yw pwysigrwydd Cynghorau Cymuned a Thref wrth adeiladu cymunedau gwydn. Mae arferion da yn dod ag engni newydd i ofalu am y gymuned, ac yn amlygu pwysigrwydd gweithio gyda'i gilydd. Mae'r Fframwaith Cod Ymddygiad sydd eisoes yn bodoli yn gosod safonau uchel; bydd rhai newidiadau i hwn, a bydd ymgynghoriad byr yn cael ei gynnal cyn i hynny ddigwydd. Mae'n bwysig i aelodau fanteisio ar yr hyfforddiant a ddarperir gan Un Llais Cymru. Hefyd gan fod Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn cael ei ddefnyddio i helpu Cynghorau i ddrafftio dogfennau, atgoffwyd y gynhadledd bod gan AI ei gyfyngiadau, a bod angen gwirio bob amser yr hyn y mae'r robotiaid yn ei baratoi ar eich Cfer. Dywedodd y Cyng. B.D. fod y nodweddion a ddefnyddiwyd yn y gynhadledd i ddisgrifio cymunedau gwydn i'w gweld yn barod yn ein cymunedau lleol sy'n ffurfio Cymuned Cynwyl Elfed.

60. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf.

Cynhelir y Cyfarfod Misol nesaf ar: Nos Lun, **16 Tachwedd 2026**
am**: 7:30** yr hwyr**.**

Daeth y cyfarfod i ben am 21:15 o'r gloch.

……
Cyng. A. Evans (Cadeirydd)

……
Dyddiad.